Minutes

Cyngor

Date:	Dydd Mawrth, 19 Gorffennaf 2022
Time:	5.00 pm
Present:	Councillors C Reeks, S Cocks, E Stowell-Corten, J Harris, A Screen, L James, T Harvey, M Howells, P Bright, J Peterson, A Pimm, D Batrouni, D Jenkins, P Drewett, B Davies, S Adan, M Pimm, C Baker-Westhead, J Reynolds, R Howells, A Sterry, G Horton, J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, D Harvey, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Mudd, M Spencer, K Thomas, C Townsend, K Whitehead, J Clarke, Y Forsey, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, W Routley, A Morris, F Hussain and B Perkins
Apologies:	Councillors J Jones, M Evans, D Fouweather and T Watkins

1. **Rhagofynion**

1.i Ymddiheuriadau
Dywedodd yr aelod llywyddol y cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan yr aelodau fel y dangosir uchod.

1.ii Datganiadau o Fuddiant
Dim.

1.iii Datganiadau'r aelod llywyddol
Diolchodd yr aelod llywyddol i'r holl staff am barhau â'u gwaith yn ystod y tywydd poeth. Diolchodd hefyd i'r Deon am wasanaeth y Sul Dinesig ar 26 Mehefin 2022 ac atgoffodd yr aelodau am ei neges i ACau, aelodau llywyddol a chynghorwyr ynghylch parchu eu safle mewn awdurdod.

2. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion 1 Mawrth a 17 Mai 2022 fel cofnod cywir.

3. **Penodiadau**

Cynigiodd y Cynghorydd Harvey y penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad, fel y cytunwyd gan y Rheolwyr Busnes, yn amodol ar y penodiadau ychwanegol a nodir isod. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Fouweather.

Penderfynwyd: Bod y penodiadau a nodir yn yr adroddiad i'r Cyngor yn cael eu cytuno, ynghyd â'r penodiadau ychwanegol a ganlyn.

Penodiadau Corff Llywodraethu

Corff Llywodraethu	Nifer y Lleoedd	Enwebiadau a Dderbyniwyd

	Gwag / Ailbenodiadau	
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	Ailbenodiad	Nicholas Clark
Ysgol Uwchradd Llyswyry	Newydd	Y Cynghorydd Mark Howells
Ysgol Gynradd Langstone	Newydd	Y Cynghorydd Martyn Kellaway
Ysgol Gynradd Llanfarthin	Newydd	Y Cynghorydd William Routley
Ysgol Basaleg	Newydd	Y Cynghorydd John Harris
Canolfan Gyflawni'r Bont	Newydd	Y Cynghorydd Stephen Marshall
Ysgol Gyfun Caerllion	Newydd	Y Cynghorydd Claire Baker-Westhead
Ysgol Gyfun Caerllion	Newydd	Y Cynghorydd Stephen Cocks
Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion	Newydd	Y Cynghorydd Claire Baker-Westhead
Ysgol Charles Williams	Newydd	Y Cynghorydd Stephen Cocks
Ysgol Gynradd Crindai	Newydd	Y Cynghorydd Lauren James
Ysgol Bartneriaeth Gaer a Maes-glas	Newydd	Y Cynghorydd Dimitri Batrouni
Ysgol Gynradd Langstone	Newydd	Y Cynghorydd Martyn Kellaway
Ysgol Gynradd Llanfarthin	Newydd	Y Cynghorydd William Routley
Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Malpas	Newydd	Jonathan Gibbons
Ysgol Gynradd Maerun	Newydd	Y Cynghorydd Rhian Howells
Ysgol Gynradd Maerun	Newydd	Y Cynghorydd Allan Screen
Ysgol Gynradd Milton	Newydd	Y Cynghorydd Tim Harvey
Ysgol Gynradd Milton	Newydd	Y Cynghorydd Matthew Pimm
Ysgol Gynradd Monnow	Newydd	Neil Griffiths
Ysgol Uwchradd Casnewydd	Newydd	Y Cynghorydd Lauren James
Ysgol Gynradd Tŷ-du	Newydd	Y Cynghorydd Bev Davies
Ysgol Gynradd St Andrews	Newydd	Y Cynghorydd James Peterson
Ysgol Gynradd Sant Gwynllyw	Newydd	Y Cynghorydd Pat Drewett
Ysgol Gymraeg Casnewydd	Newydd	Y Cynghorydd Malcom Linton
Ysgol Gynradd Gatholig Sant Padrig	Newydd	Y Cynghorydd Alex Pimm

Penodiadau Pennaeth Gwasanaeth
Hysbyswyd y Cyngor bod David Walton wedi'i benodi gan y Panel Penodiadau fel y Pennaeth Tai a Chymunedau newydd.

4. **Adroddiad Diwedd Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2021/22**

Cyflwynodd yr Arweinydd Adroddiad Diwedd Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2021/22. Adolygwyd yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cabinet ac ni wnaed unrhyw sylwadau a oedd angen sylw'r Cyngor. Roedd yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod hwn yn unol â chyfrifoldeb y Cyngor llawn am osod strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a'r ddangosyddion a'r terfynau amrywiol oedd yn rheoli'r gweithgaredd hwn.

Roedd yr adroddiad yn egluro gweithgareddau benthyca a buddsoddi'r Cyngor yn 2021/22 a'i sefyllfa yn erbyn y dangosyddion a'r terfynau a osodwyd.

O ran benthyca, gellir gweld gwahaniaeth sylweddol o'i gymharu â'r sefyllfa ddisgwyliedig. Roedd gan y Cyngor ofyniad hirdymor i fenthyca ac, wrth fynd ar drywydd strategaeth fenthyca fewnol, fel arfer dylai fod ag ychydig iawn o fuddsoddiadau (arian dros ben), y byddai'n eu buddsoddi yn y tymor byr.

Oherwydd effeithiau parhaus pandemig COVID-19, yn dilyn ail flwyddyn o lithriant gwariant cyfalaf sylweddol, ni wireddwyd y benthyca disgwyliedig. Roedd yr 'angen' i fenthyca yno a byddai'n digwydd ond golygai llithriant na wireddwyd hyn mor gyflym â'r disgwyl.

Roedd yr ail flwyddyn hon o danwariant sylweddol a'r cynnydd canlyniadol mewn cronfeydd wrth gefn, sydd eto i'w gwario, hefyd yn golygu bod adnoddau arian parod yn llawer uwch na'r disgwyl. Roedd hyn yn caniatáu i rai benthyciadau bach a oedd yn aeddfedu gael eu had-dalu heb eu hailariannu ac i lefelau arian sbâr fod yn uchel ac iddynt gael eu buddsoddi.

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, sefyllfa dros dro oedd hon a chan fod y Cyngor bellach yn gweithio i ddal i fyny ar brosiectau cyfalaf a chyda'r cymorth ariannol sy'n gysylltiedig â COVID-19 bellach wedi dod i ben, dylai'r cyngor yn gyntaf weld adnoddau arian parod a buddsoddiadau yn lleihau, ac yna ailddechrau benthyca, yn unol â gofynion dros amser.

Roedd swyddogion yn cynnal adolygiad manwl o'r rhaglen gyfalaf i gael gwell dealltwriaeth o amserlenni cyflawni; byddai hyn yn cael ei adrodd maes o law.

O ran y dangosyddion a'r terfynau, amlygodd yr adroddiad un maes lle na chyflawnwyd y rhain, a oedd yn anarferol.

Roedd y dangosydd yn ymwneud ag amlygiad y Cyngor i *newidiadau mewn cyfraddau llog*. Mae costau benthyca yn cynyddu os yw'r gyfradd llog yn cynyddu a byddai ein hincwm o weithgareddau buddsoddi yn gostwng pe bai'r gyfradd llog yn gostwng.

Ond mewn perthynas â'r dangosydd, nodwyd bod y mater wedi'i amlygu oherwydd dehongliad gwahanol o fenthyciadau LOBO (yr opsiynau i fenthyca neu i fenthyg) y Cyngor fel benthyciadau llog amrywiol yn hytrach na benthyciadau cyfradd llog sefydlog. Felly, roedd yn fater mwy 'technegol' yn hytrach nag un a achoswyd gan benderfyniadau benthyca a wnaed. Yn wir, roedd yr adroddiad yn cadarnhau, o ystyried natur y benthyciadau LOBO hyn, pe bai'r gyfradd llog yn cynyddu, roedd yn fwy tebygol o wneud arbediad cyllidebol yn hytrach na bod yn agored i'r risg y byddai costau'n cynyddu.

O ran y terfyn, digwyddodd y toriad hwn oherwydd bod y swm a fuddsoddwyd yn llawer mwy na'r hyn a ragwelwyd wrth osod y dangosydd. Eto, nid oedd hyn yn peri unrhyw bryder gan nad oedd targed cyllideb y Cyngor ar gyfer llog sy'n dderbyniadwy yn newid a, hyd yn oed pe bai cyfraddau'n gostwng, ni fyddai'n effeithio ar y gyllideb honno.

Nodwyd bod y gwaith o reoli llif arian y Cyngor yn arbennig o heriol dros y ddwy flynedd eithriadol ddiwethaf, a diolchodd yr Arweinydd i'r tîm Cyllid am ei waith yn ystod y cyfnod hwn.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd D Davies.

Sylwadau gan gynghorwyr:

Cyfeiriodd y Cynghorydd Routley at dudalen 52, adran 9, yn yr adroddiad, lle nododd nad oedd unrhyw fuddsoddiadau yn cefnogi sefydliadau Rwsia yn uniongyrchol ac felly gofynnodd p'un a oedd unrhyw fuddsoddiadau a oedd yn cefnogi sefydliadau Rwsia yn anuniongyrchol. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r swyddog priodol yn darparu ymateb ysgrifenedig.

Sylwodd y Cynghorydd Routley fod arian cyfalaf yn cael ei godi ar gyfer Ysgol Glan Wysg a'r Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol o dan weithgarwch dyled arall. Roedd y datganiad cyfrifon yn dangos rhwymedigaeth o £39 miliwn i dalu'r gweithredwr ac felly gofynnwyd a ellid dadansoddi'r cyllid rhwng yr ysgol a'r Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol. Caniataodd yr aelod llywyddol y cwestiwn y tro hwn a dywedodd y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu gan y swyddog priodol.

Penderfynwyd:
Bod y Cyngor wedi nodi'r adroddiad ar weithgareddau rheoli'r trysorlys am y cyfnod 2021-22, a'i fod wedi cytuno arno.

5. **Adroddiad Blynyddol yr Iaith Gymraeg**

Cyflwynodd yr Arweinydd y ddogfen, gan amlygu ei bod yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu adroddiad cynnydd blynyddol yn unol â Safonau'r Gymraeg o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd yr adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o gyflawniadau allweddol yn ystod y flwyddyn, a meysydd blaenoriaeth ar gyfer gwaith yn y dyfodol. Y rhain oedd y canlynol:

- Gweithio gyda chymunedau ffoaduriaid, mudol ac ethnig lleiafrifol i wreiddio'r Gymraeg yn well fel rhan o ymdeimlad cyffredin o hunaniaeth ar draws y ddinas, yn enwedig yng nghyd-destun datblygiad ein pedwaredd ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.

- Gwella, datblygu, a dechrau'r gwaith o gyflwyno Polisi Sgiliau Iaith Gymraeg newydd. Rhoddwyd prosesau ar waith i ganiatáu cyflawni'r flwyddyn nesaf.

- Ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a'n cymunedau i lywio'r gwaith o ddatblygu ein Strategaeth Iaith Gymraeg pum mlynedd newydd, a basiwyd gyda chefnogaeth lawn y Cyngor.

- Datblygu trefniadau partneriaeth creadigol y tu allan i'r sector cyhoeddus a gwirfoddol i godi proffil y Gymraeg ar draws Casnewydd. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda Chlwb Rygbi'r Dreigiau a Chlwb Pêl-droed Sir Casnewydd i hyrwyddo'r Gymraeg.

Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod adrodd nesaf, gan gynnwys y canlynol:

- Gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i gyflawni'r Strategaeth Iaith Gymraeg pum mlynedd newydd a sefydlu fframwaith monitro perfformiad i asesu cyflawniad amcanion.

- Ymgysylltu pellach â chymunedau amrywiol Casnewydd i hyrwyddo'r Gymraeg, codi ymwybyddiaeth ac amlygrwydd yr iaith, a pharhau i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg a chynwysoldeb yr iaith.

- Ymgorffori ein strwythur rheoli perfformiad newydd ar draws y Cyngor.

- Cyflwyno ein fideos hyfforddi Cymraeg newydd i bob aelod o staff.

- Parhau i gwmpasu ac ystyried cyrsiau Cymraeg ar gyfer siaradwyr sydd wedi rhoi'r gorau i siarad yr iaith, neu'r rhai sydd angen hwb i'w hyder.

Sylwadau gan gynghorwyr:

Ategodd y Cynghorydd Al-Nuaimi yr adroddiad, a ddylai gael ei gefnogi gan yr holl aelodau, ac roedd yn falch iawn o weld y gwahaniaeth a gyflawnwyd dros y blynyddoedd. Cafwyd trafodaeth ddiddorol yn y Pwyllgor Craffu ac roedd y Cynghorydd Al-Nuaimi eisiau tynnu sylw at ddau beth. Diolchodd y Cynghorydd Al-Nuaimi yn gyntaf i'r Prif Swyddog Addysg am ei heglurhad ynghylch y lleoedd gweigion mewn meithrinfeydd gyda chynllun ar waith i hybu'r Gymraeg mewn addysg blynyddoedd cynnar. Yn ail, roedd yn darged uchelgeisiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru i gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn y flwyddyn 2050; dylai adroddiadau rheolaidd nodi cynnydd ynghylch y targed hwn bob blwyddyn er mwyn ei gyflawni a sut y'i cyflawnwyd.

Roedd y Cynghorydd Davies yn ymwybodol bod swyddogion addysg yn ddiolchgar am y cymorth a ddarparwyd gan y Swyddog Iaith Gymraeg a bod Cyngor Dinas Casnewydd wedi cael adborth cadarnhaol iawn gan Lywodraeth Cymru. Roedd y Cynghorydd Davies felly am gyfleu ei diolch am hyn.

Mynegodd y Cynghorydd Hughes ei ddiolch yn Gymraeg:

Fel yr Hyrwyddwr Aelod Etholedig dros y Gymraeg am y llynedd, rwy'n falch o gefnogi gwaith ein swyddogion wrth hyrwyddo'r Gymraeg ac wrth godi proffil y Gymraeg o fewn y cyngor ac ar draws ein cymunedau.

Drwy fod yn rhan o'r broses Grant Cymraeg yn y Gymuned, roedd yn arbennig o galonogol gweld faint o ddiddordeb a cheisiadau eithriadol gan grwpiau cymunedol ledled Casnewydd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, ei hymwybyddiaeth a'i gweledded ar draws holl ddinasyddion Casnewydd gan gynnwys y rhai sy'n newydd i'r Ddinas a Chymru.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai meysydd o gynnydd gwirioneddol ynghyd â rhai blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn nesaf a thu hwnt ac edrychaf ymlaen at weld sut mae'r Gymraeg yn cael ei chroesawu gan holl ddinasyddion Casnewydd, a sut mae ein gweledigaeth o 'Gweld, Clywed, Dysgu, Defnyddio, Caru' yn cefnogi'r Gymraeg fel iaith fyw ym mhob rhan o fywyd ar draws y Ddinas.

Sylwadau Cabinet y Cynghorydd Hughes

Atgoffodd y Cynghorydd Hourahine ei gydweithwyr mai adroddiad ôl-weithredol oedd hwn a aeth i gael ei graffu ac y byddai'r adroddiad nesaf yn dangos llawer mwy o gynnydd sydd wedi digwydd.

Cytunodd y Cynghorydd Batrouni, yr arweinydd newydd ar gyfer Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg, â sylwadau M Al-Nuaimi, yn ogystal â diolch i'r Cynghorydd Hourahine am ei sylwadau. Dywedodd y Cynghorydd Batrouni wrth ei gydweithwyr fod 20% o bobl yn siarad Cymraeg yng Nghasnewydd gyda chynnydd o 3% dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a olygai na fyddai Cyngor Dinas Casnewydd yn cyrraedd targed 2050 fel y'i codwyd gan y Cynghorydd Al-Nuaimi a sicrhaodd y Cyngor y byddai hyn yn cael ei fonitro'n agos ac y byddai'n destun adroddiad blynyddol. Fodd bynnag, lleihaodd y pandemig allu pobl i fanteisio ar y Gymraeg.

Penderfynwyd:

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r adroddiad monitro terfynol atodedig a'i fod yn cytuno i'w gyhoeddi ar wefan y Cyngor, yn unol â therfynau amser statudol.

6. **Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus: PSPO - Rheoli Cwn**

Roedd Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol, Tai a Rheoleiddio yn falch o gyflwyno'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus newydd ar gyfer rheoli cŵn i'w gymeradwyo.

Cyn 2015, roedd rheoli cŵn yn cael ei reoli o dan Orchmynion Rheoli Cŵn safle-benodol ar gyfer gwahanol fannau agored sy'n eiddo i'r Cyngor. O fis Hydref 2014, cyflwynodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 y defnydd o Orchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus fel pŵer newydd i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys perchnogaeth cŵn anghyfrifol.

Roedd hyn yn golygu bod y Gorchmynion Rheoli Cŵn a oedd yn bodoli eisoes yn cael eu dirwyn i ben a'u disodli gan Orchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus. Dull Cyngor Dinas Casnewydd, yn unol ag awdurdodau lleol eraill, oedd cyfuno'r holl faterion sy'n ymwneud â rheoli cŵn ac ymddygiad cŵn mewn gorchymyn ehangach, a fyddai o fudd i bob aelod o'r gymuned sy'n defnyddio tir sy'n eiddo i'r Cyngor ac yn cael ei reoli ganddo – perchnogion cŵn a'r cyhoedd yn gyffredinol.

Barnwyd bod angen y gorchymyn i reoli ymddygiad anghyfrifol wrth fynd â chŵn am dro / er mwyn cael ymarfer corff a oedd yn cael effaith andwyol ar ddefnydd a mwynhad pobl eraill o fannau agored cyhoeddus. Roedd hyn yn amrywio o fethu â chael gwared ar faw i ymddygiad afreolus anifeiliaid tuag at bobl, anifeiliaid eraill a bywyd gwyllt. Roedd yr angen i reoli ymddygiad mewn meysydd chwarae, meysydd chwaraeon ffurfiol a mynwentydd yn arbennig o arwyddocaol, ac roedd digwyddiadau yn yr ardaloedd hyn yn arwain at gwynion ffurfiol i'r awdurdod.

Roedd y mesurau rheoli a ymgorfforwyd i'r Gorchmynion Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn cynnwys gwahardd cŵn yn gyfan gwbl o ardaloedd sensitif penodol megis mannau chwarae i blant, gofyniad i gŵn fod dan reolaeth ac ar dennyn mewn mannau cyhoeddus penodol eraill, a gofyniad cyffredinol i berchnogion cŵn lanhau baw cŵn.

Yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau statudol, roedd yn ofynnol i'r Cyngor ymgynghori â'r Heddlu, y cyhoedd yn gyffredinol a rhanddeiliaid allweddol megis clybiau a chymdeithasau perchnogion cŵn a rhoi sylw i unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad cyn penderfynu bwrw ymlaen â'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus.

Goruchwyliwyd y broses o ymgysylltu â'r cyhoedd ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol gan y Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu.

Cytunodd y pwyllgor ar yr ymgynghoriad cyhoeddus yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2021, ac ar ôl hynny, cynhaliwyd ymgynghoriad helaeth.

Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu â grwpiau allweddol, gan gynnwys, er enghraifft, glybiau chwaraeon, cyrff llywodraethu chwaraeon, y Clwb Cenel, Cymdeithas Genedlaethol y Trefnwyr Angladdau, yr Ymddiriedolaeth Natur neu'r RSPB.

Yn ogystal, cafodd baneri a hysbysiadau eu cynhyrchu a'u rhoi o amgylch y gwahanol safleoedd a'u gosod ar gatiau yn hysbysu'r cyhoedd. Postiwyd y ddolen i'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol i helpu i godi ymwybyddiaeth. Dangoswyd y canlyniad bod mwyafrif clir o blaid gweithredu'r gorchymyn.

Cyflwynwyd canlyniad yr ymgynghoriad i'r Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu ym mis Ionawr 2022. Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac roedd yn fodlon bod

gwaith ymgysylltu eang wedi digwydd a bod angen y mesurau rheoli a oedd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus arfaethedig ac felly argymhellodd i'r Cyngor y dylid mabwysiadu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus arfaethedig.

Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb hefyd. Nid oedd unrhyw ganlyniadau negyddol yn gysylltiedig â grwpiau neu unigolion â nodweddion gwarchodedig, a byddai'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus yn cyfrannu at ddatblygu Mannau Gwyrdd a Diogel, a oedd yn ymyriad allweddol i'r Cyngor.

Y cynnig yn awr oedd cymeradwyo'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ar gyfer rheoli cŵn am gyfnod o dair blynedd, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu.

Sylwadau gan gynghorwyr:

Cytunodd y Cynghorydd Lacey fod perchnogion cŵn cyfrifol yn glanhau ar ôl eu cŵn; fodd bynnag, roedd yr adroddiad hwn hefyd yn ymwneud â pherchnogion cŵn anghyfrifol ac felly'n cefnogi'r ci yn llawn.

Mynychodd y Cynghorydd Forsey y Pwyllgor Craffu pan gafodd ei roi gerbron yr aelodau, ac anogodd bobl hefyd i gadw eu cŵn dan reolaeth o amgylch plant ac mewn mynwentydd a chefnogodd yr adroddiad.

Roedd y Cynghorydd Whitehead yn cefnogi'r adroddiad yn llwyr ac wedi ymgyrchu yn erbyn pobl nad ydynt yn codi baw cŵn a'r peryglon canlyniadol. Gofynnodd y Cynghorydd Whitehead p'un a oedd gan y Cyngor yr adnoddau i blismona'r gorchymyn hwn.

Cefnogodd y Cynghorydd Morris yr adroddiad a chytunodd â sylwadau'r Cynghorydd Whitehead a chyfeiriodd at berchnogion cŵn anghyfrifol yn taflu eu baw cŵn ond gofynnodd am ymarferoldeb plismona'r gorchymyn hwn a chamau gweithredu. Dywedodd yr aelod llywyddol y gellid dod o hyd i'r wybodaeth yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at Barc Beechwood, a oedd yn boblogaidd iawn yn ystod y cyfyngiadau symud ac a oedd hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y cŵn ers y cyfyngiadau symud – roedd hyn yn golygu bod mwy o achosion o bobl yn gadael eu ci oddi ar dennyn ac yn codi ofn ar blant. Roedd y Cynghorydd Davies yn cefnogi'r adroddiad yn llwyr.

Dywedodd y Cynghorydd M Pimm fod perchnogion cŵn anghyfrifol yn mynd â'u cŵn i barciau mwy gydag ardaloedd dynodedig lle gallai cŵn redeg ac awgrymodd ei bod yn syniad da edrych ar ddarparu mwy o fannau rhedeg cŵn penodol mewn parciau.

Croesawodd y Cynghorydd Bright yr adroddiad.

Cefnogodd y Cynghorydd Cleverly yr adroddiad hefyd ac awgrymodd y dylid darparu mwy o finiau ar gyfer baw cŵn.

Penderfynwyd:
Bod y Cyngor yn mabwysiadu a gweithredu'r Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus ar gyfer rheoli cŵn rhwng 2022 a 2025.

7. **Cofnodion Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

Roedd gan yr aelod llywyddol gofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gerbron y Cyngor a gofynnodd am yr eilydd, y Cynghorydd Corten.

8. **Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Cyn cychwyn gyda chwestiynau, gwnaeth yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol i'r Cyngor:

Coleg Gwent
Roedd cydweithwyr yn ymwybodol bod cynigion i greu campws coleg yng nghanol y ddinas, gan ddarparu cyfleusterau addysg bellach o'r radd flaenaf, yn cymryd cam arall ymlaen.

Lansiwyd ymgynghoriad cyn cynllunio cyn i gais amlinellol gael ei gyflwyno ar y cyd gan y Cyngor a Choleg Gwent.

Roedd y Cyngor yn gweithio'n agos gyda Choleg Gwent a Llywodraeth Cymru ar ei gynlluniau i ddod â darpariaeth addysg bellach i galon canol y ddinas.

Byddai Ardal Wybodaeth Casnewydd yn cynnig amgylcheddau dysgu rhagorol ar gyfer addysg bellach ac addysg uwch, gan helpu i ysbrydoli cenedlaethau o bobl ifanc.

Mae'r Cyngor hefyd yn cyflwyno cais i Gronfa Ffyniant Bro llywodraeth y DU i gefnogi Sefydliad Technoleg Cenedlaethol mewn lleoliad yng nghanol y ddinas. Byddai sefydliad o'r fath yn darparu addysg a hyfforddiant technegol lefel uwch o ansawdd uchel, a fyddai'n ased gwerthfawr arall y mae mawr ei angen ar y ddinas.

Roedd y datblygiadau hyn yn rhan o'n prif gynllun ar gyfer canol y ddinas, sef prosiectau adfywio a fyddai'n darparu cyfleoedd cyflogaeth, dysgu a hyfforddiant, yn creu cymysgedd mwy amrywiol o ddefnyddiau, ac yn gwneud Casnewydd yn lle deniadol i fyw ynddo, gweithio ynddo ac ymweld ag ef.

Roedd manylion yr ymgynghoriad cyn cynllunio ar gael ar wefan y Cyngor, ac roedd yr Arweinydd yn annog cydweithwyr i edrych, a rhannu a chyflwyno eu barn.

Gan barhau â'r thema sgiliau ac addysg, roedd yr Arweinydd yn falch o ddweud bod yr arlwy dysgu cymunedol diweddaraf wedi'i lansio'n barod ar gyfer dechrau mis Medi. Ar ôl ychydig flynyddoedd anodd, oherwydd y pandemig, rydym yn falch iawn o allu cyflwyno cynnig estynedig a helaeth – gan gynnwys sgiliau hanfodol, cymwysterau TGAU, ieithoedd modern, Iaith Arwyddion Prydain, llythrennedd digidol a sgiliau byw'n annibynnol – i bynciau fel carbon llythrennedd, lle gallai dysgwyr ddeall eu hôl troed carbon a chymryd camau i leihau eu heffaith ar y blaned.

O'r wythnos nesaf ymlaen, byddai Canolfan Ffordd y Brenin yn gartref i lyfrgell dros dro newydd. Byddai'r uned, sydd wedi'i lleoli'n agos iawn at brif adeilad y llyfrgell, yn sicrhau y gallem barhau i ddarparu gwasanaethau benthyca, mynediad at gyfrifiaduron cyhoeddus, a rhai adnoddau ymchwil deuluol tra oedd gwaith gwella'n cael ei wneud ar y llyfrgell ganolog a'r amgueddfa.

Ar ôl cwblhau'r gwaith, byddai rhai gwasanaethau yn yr Orsaf Wybodaeth yn cael eu darparu o'r adeilad sydd newydd ei adnewyddu. Byddai staff canolfan gyswllt y Cyngor hefyd yn gweithio yno.

Daeth hyn yn dilyn y penderfyniad i osod dau lawr o'r hen orsaf reilffordd yn Queensway i Tramshed Tech i greu gofod cydweithio ar gyfer busnesau newydd yn y sectorau digidol, technoleg a chreadigol.

Roedd lloriau uwch yr adeilad eisoes wedi'u meddiannu gan Academi Meddalwedd Genedlaethol fawreddog Prifysgol Caerdydd, gan wneud yr hen orsaf reilffordd yn gartref i entrepreneuriaid digidol blaengar y dyfodol.

Aeth ein Rhwydwaith Staff Pride ein hunain mewn partneriaeth â Chasnewydd Fyw a PROUD i lansio Prosiect Celf Haf y gymuned LHDTCRhA+.

Roedd Rhwydwaith Staff Pride yn dathlu blwyddyn o sefydlu trwy weithio ar y prosiect, a oedd yn cefnogi digwyddiad Pride cymunedol ‘Pride in the Port’, a fyddai'n cael ei gynnal ym mis Medi.

Byddai’r prosiect yn caniatáu arddangos celf gymunedol i ddathlu 50 mlynedd o Pride yn y Deyrnas Unedig a digwyddiad Pride cymunedol cyntaf erioed Casnewydd.

Fel rhan o'r prosiect, roeddent yn gofyn am gyflwyniadau o waith celf a fyddai'n ffurfio'r casgliad arbennig i'w arddangos yng Nglan yr Afon. Gallai'r gwaith celf fod ar unrhyw ffurf – peintiad neu gerflunwaith, ffurf ffisegol neu ddigidol i'w defnyddio ar-lein – a dylai testun y gwaith celf fod yn rhywun sydd naill ai'n Gymro / Cymraes neu sydd â chysylltiadau cryf â Chymru, ac sy'n uniaethu'n agored fel LHDTCRhA+.

Roedd rhagor o fanylion a sut i wneud cyflwyniad ar gael ar ein gwefan.

Yn gynharach y mis hwn, roedd y Dirprwy Faer a’r Arweinydd yn falch o gael croesawu Taith Gyfnewid Baton y Frenhines ar gyfer Gemau’r Gymanwlad i Gasnewydd – gwnaeth cannoedd o Sgowtiaid, Geidiaid, Afancod a Brownis ein helpu i sicrhau ei fod yn groeso cynnes iawn!

Roedd y baton yn gwneud ei ffordd i Birmingham, y ddinas sy’n lletya Gemau’r Gymanwlad 2022, a byddai wedi teithio 90,000 o filltiroedd o amgylch 72 o wledydd a thiriogaethau’r Gymanwlad cyn gorffen ei daith yn ddiweddarach y mis hwn.

Ymunodd yr athletwr Christian Malcom a’r bocsiwr Sean McGoldrick â chludwyr y baton, a oedd i gyd wedi’u henwebu am eu cyfraniadau o fewn y Sgowtiaid a’r Geidiaid, wrth i’r baton trawiadol wneud ei ffordd o amgylch y trac yn Stadiwm Casnewydd.

Ar ôl y ras gyfnewid, mwynhaodd y bobl ifanc a’u harweinwyr fel ei gilydd amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys bocsio, beicio, aerobeg, tennis, sboncen, pêl-droed, pêl-rwyd a thennis bwrdd!

Ers i'r Cyngor gyfarfod ddiwethaf, roedd yr Arweinydd yn falch o gyhoeddi ein bod wedi derbyn achrediad swyddogol y Faner Borffor ar gyfer economi gyda'r hwyr a'r nos yn y ddinas.

Yn debyg i'r Faner Las ar gyfer traethau, nod cynllun y Faner Borffor oedd codi safon ac apêl canol trefi a dinasoedd rhwng 5pm a 5am.

Cafodd ardaloedd y dyfarnwyd y Faner Borffor iddynt eu cydnabod am ddarparu cymysgedd bywiog ac amrywiol o gyfleoedd bwyta, adloniant a diwylliant wrth hyrwyddo diogelwch a llesiant ymwelwyr a phreswylwyr.

Roedd yr uchafbwyntiau o gyflwyniad Casnewydd yn cynnwys bywiogi diwylliant caffis yn ystod y pandemig, y gwaith rhagweithiol sy'n cael ei wneud ynghylch cyffuriau a sbeicio diodydd, ac arwyddion Archwilio Casnewydd.

Heb os, bu newid sylweddol yn y cynnig gyda’r nos ac yn ystod y nos a’r awyrgylch yng nghanol y ddinas – roedd hyn yn newyddion gwych i fusnesau ac yn deyrnged i waith caled ein swyddogion trwyddedu a’n partneriaid, gan gynnwys Ardal Gwella Busnes Newport Now a Pubwatch.

Roedd gan Gasnewydd gymysgedd anhygoel o ddiwylliant caffi arddull Ewropeaidd a thafarndai traddodiadol, ynghyd â rhai bwytai rhagorol. Roedd gan y ddinas hefyd fusnesau annibynnol gwych yn darparu cerddoriaeth fyw ac adloniant.

Ar ran y Cyngor, llongyfarchodd yr Arweinydd ar ôl nid un, ond dwy fuddugoliaeth Casnewydd yng Ngwobrau Addysgu Cenedlaethol mawreddog Cymru.

Enillodd Ysgol Uwchradd Llan-wern y Wobr Betty Campbell gyntaf erioed am Amrywiaeth yn y Cwricwlwm. Roedd teulu Betty Campbell yn y digwyddiad a chyflwynodd yr Athro Charlotte Williams, a ysgrifennodd yr argymhellion diweddar ar gyfer archwilio treftadaeth ddiwylliannol ac amrywiaeth yn y cwricwlwm i Gymru, y wobr gyda Jeremy Miles.

Yr ail wobr oedd 'Athro Newydd y Flwyddyn' – categori ar gyfer athrawon sydd ym mlynyddoedd dau a thri o'u gyrfa. Enillwyd hon gan Holly Gordon o Ysgol Bryn Derw. Enillodd Holly hefyd wobr y *South Wales Argus* am yr un categori yn gynharach yn y flwyddyn. Aeth y Gweinidog Addysg i drafferth fawr i bwysleisio arbenigedd Holly a'r ffaith mai Casnewydd oedd â'r unig ysgol arbennig ar gyfer anhwylderau yn y sbectrwm awtistig yng Nghymru.

Llongyfarchiadau ar gyflawniadau mor anhygoel.

Cwestiynau i'r Arweinydd

Y Cynghorydd Routley:

A ellid gwneud mwy i hyrwyddo strategaethau gwrth-fwlio?

Yr Arweinydd:

Roedd yn bwysig yn holl waith y Cyngor i hybu parch. Roedd gwaith parhaus mewn meysydd allweddol gyda phartneriaid addysg a chydweithwyr ar draws yr ysgolion. Hefyd, roedd polisïau ar waith, gan gynnwys sut y dylai unigolion ymddwyn yn y gweithle. Fel awdurdod dysgu, roedd bob amser lle i ddatblygu ymhellach.

Atodol:

Dywedodd y Cynghorydd Routley nad oedd plant yn wydn a gofynnodd p'un a oedd modd newid y naratif. A oedd cyfle i ddatrys bwlio mewn ysgolion a cholegau a chefnogi ymgyrch hollbleidiol i fabwysiadu agwedd newydd sbon at fwlio yng ngoleuni rhai trasiedïau?

Yr Arweinydd:

Ailadroddodd yr Arweinydd fod y Cyngor yn sylweddoli difrifoldeb bwlio, y gallai ddigwydd ar unrhyw oedran mewn unrhyw leoliad. Dywedodd yr Arweinydd mai'r Cynghorydd Routley oedd cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar gyfer Pobl a'i fod wedi cael cyfle i graffu ar y maes hwn ac y byddai'n fwyaf priodol ei drafod yn fanwl. Yn ogystal, byddai Aelod y Cabinet a'r Prif Swyddog Addysg hefyd ar gael i ymchwilio i'r mater hwn pe bai'r Cynghorydd Routley am drafod y materion hyn yn fanwl.

Y Cynghorydd Whitehead:

Roedd pryderon ynghylch tanau posibl yn cychwyn oherwydd y tywydd poeth, yn enwedig gyda'r glaswellt hir, a gofynnodd i'r Arweinydd p'un a oedd unrhyw gynlluniau wrth gefn neu fesurau lliniaru ynghylch y mater hwn.

Yr Arweinydd:

Roedd mesurau ar waith, yn ogystal â thrafodaethau parhaus. Byddai'n esgeulus i beidio â thynnu sylw at waith y strategaeth ar y newid yn yr hinsawdd ac roedd y tywydd poeth garw presennol yn dystiolaeth ddifrifol o'r ffordd yr oedd yr hinsawdd yn newid. Roedd No Mow May yn cefnogi'r cynefin naturiol, yn unol â pholisïau. Fodd bynnag, roedd rhai wardiau yng

Nghasnewydd yr oedd Cartrefi Dinas Casnewydd yn gyfrifol amdanynt yn ogystal â Chyngor Dinas Casnewydd a dylem fod yn ymwybodol o hyn. O ran y tywydd a chynlluniau i liniaru hyn, roedd argyfyngau sifil wedi bod yn cyfarfod yn ddyddiol i drafod hyn a sicrhau parhad gofal cartref yng Nghasnewydd.

Atodol:

Roedd y Cynghorydd Whitehead yn gobeithio y byddai pob aelod yn cymryd amser i wrando ar drigolion a bod yn wyliadwrus ac yn ystyriol yn ystod y cyfnod hwn.

Y Cynghorydd Morris:

Ble'r oeddem ni ar fater teithwyr a chyfeiriodd at safleoedd dros dro y cynigiwyd eu bod yn eu lle ar gyfer teithwyr ddeng mlynedd yn ôl?

Yr Arweinydd:

Roedd lefel uchel o ymgysylltu â'r cyhoedd ar y pryd, a oedd yn arwydd o'r diddordeb. O safbwynt Llywodraeth Cymru, roedd angen asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr arnynt ac, er i'r gwaith hwn gael ei oedi yn ystod COVID-19, roedd ar y gweill. Roedd rhai awdurdodau wedi dewis peidio â mynd i'r afael â hyn, ond roedd Cyngor Dinas Casnewydd yn ymchwilio i hyn. Roedd yr asesiad yn drwm ar adnoddau, ac roedd llawer o swyddogion ac amser swyddogion yn gysylltiedig â hyn. Roedd y swyddogion hyn yn aml hefyd yn delio â materion tai eraill. Heriau eraill yn ymwneud â hyn, oedd bod yr haf wedi arwain at gynnydd mewn presenoldeb Sipsiwn a Theithwyr ac roedd y rhain yn cael eu rheoli yn unol â pholisïau presennol.

Atodol:

Dywedodd y Cynghorydd Morris hefyd fod pobl yn rhwystredig oherwydd y diffyg cynnydd ac a allai'r Arweinydd roi rhywfaint o frys arno gan y byddai trigolion a theithwyr yn fodlon ar hynny.

Yr Arweinydd:

Gwahaniaethodd yr Arweinydd rhwng safle tramwy ar gyfer y rhai sy'n ymweld yn ystod misoedd yr haf, er enghraifft, a safle parhaol, lle byddai'n rhaid i bobl ymuno â'r gofrestr tai i gael safle sefydlog. Roedd llawer o waith ar y gweill mewn perthynas â chymhwysedd ac asesiad dwys o'r ceisiadau hyn, felly sicrhaodd yr Arweinydd y Cynghorydd Morris fod y gwaith yn mynd rhagddo.

9. **Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet**

Roedd deg cwestiwn ysgrifenedig i Aelodau'r Cabinet:

Cwestiwn 1 – Dirprwy Arweinydd / Aelod y Cabinet: Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar

Y Cynghorydd Morris:
A allech esbonio eich rôl a'ch cyfrifoldeb mewn Saesneg clir, gan gynnwys eich gweledigaeth bersonol ar gyfer y rôl ac enwau'r uwch-swyddogion sy'n adrodd i chi?

Ymateb:

Diolch am eich cwestiwn.

Fi yw Aelod y Cabinet dros Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar. Fe welwch y cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r rôl hon wedi'u nodi yn Atodiad 1 o Eitem 2 ar ein hagenda heddiw – Cofnodion 17 Mai 2022. Gall aelodau ddod o hyd i hwn ar dudalen 33 y pecyn adroddiad.

Fy ngweledigaeth yw'r weledigaeth a rennir a nodir gan y weinyddiaeth Lafur yn ein hymrwymiadau maniffesto i bobl Casnewydd. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn sail i'r Cynllun Corfforaethol y bydd y cynlluniau Maes Gwasanaeth yn cael eu datblygu ohono.

Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Prif Swyddog Addysg, Sarah Morgan, sy'n Bennaeth Gwasanaeth yn y maes hwn, a hefyd gydag uwch-swyddogion eraill. Mae'r holl aelodau etholedig wedi cael manylion y Tîm Gweithredol a Phenaethiaid Gwasanaeth fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Cwestiwn 2 – Aelod y Cabinet: Cymuned a Llesiant

Y Cynghorydd Morris:
A allech esbonio eich rôl a'ch cyfrifoldeb mewn Saesneg clir, gan gynnwys eich gweledigaeth bersonol ar gyfer y rôl ac enwau'r uwch-swyddogion sy'n adrodd i chi?

Ymateb:
Diolch am eich cwestiwn. Fi yw Aelod y Cabinet dros Gymunedau a Llesiant. Mae fy nghyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r rôl hon wedi'u nodi yn Atodiad 1 i Eitem 2 ar ein hagenda heddiw – cofnodion 17 Mai 2022. Gall aelodau ddod o hyd i hyn ar dudalen 33 y pecyn adroddiad. Fy ngweledigaeth yw'r weledigaeth a rennir a nodir gan ymrwymiadau maniffesto Llafur i bobl Casnewydd. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn sail i'r Cynllun Corfforaethol y bydd y cynlluniau Maes Gwasanaeth yn cael eu datblygu ohono. Rwy'n gweithio'n agos gyda'm cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth ar gyfer Pobl, Polisi a Thrawsnewid. Mae'r holl aelodau etholedig wedi cael manylion y Tîm Gweithredol a Phenaethiaid Gwasanaeth fel rhan o'u cyfnod sefydlu ar ôl etholiad mis Mai.

Cwestiwn 3 – Aelod y Cabinet: Cynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai

Y Cynghorydd Morris:
A allech esbonio eich rôl a'ch cyfrifoldeb mewn Saesneg clir, gan gynnwys eich gweledigaeth bersonol ar gyfer y rôl ac enwau'r uwch-swyddogion sy'n adrodd i chi?

Ymateb:
Diolch i'r Cynghorydd Morris am eich cwestiwn.

Fi yw Aelod y Cabinet dros Gynllunio Strategol, Rheoleiddio a Thai.

Mae fy nghyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r rôl hon wedi'u nodi yng nghofnodion 17 Mai ar dudalen 33 a hefyd yn Atodiad 1 i Eitem 2 ar ein hagenda heddiw.

Fy ngweledigaeth yw'r weledigaeth a rennir a nodir gan y weinyddiaeth Lafur yn ein hymrwymiadau maniffesto i bobl Casnewydd. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn sail i'r Cynllun Corfforaethol y bydd y cynlluniau Maes Gwasanaeth yn cael eu datblygu ohono.

Rwy'n gweithio gyda Chyfarwyddwr Strategol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn ogystal â gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Strategol Trawsnewid a Chorfforaethol.

Rwyf hefyd yn gweithio gyda'r Pennaeth Adfywio a Datblygu Economaidd, y Pennaeth Tai a Chymunedau, ac weithiau Pennaeth y Gyfraith a Safonau.

Credaf fod yr holl aelodau etholedig wedi cael manylion y Tîm Gweithredol fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Cwestiwn 4 – Aelod y Cabinet: Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Cynghorydd Morris:
A allech esbonio eich rôl a'ch cyfrifoldeb mewn Saesneg clir, gan gynnwys eich gweledigaeth bersonol ar gyfer y rôl ac enwau'r uwch-swyddogion sy'n adrodd i chi?

Ymateb:
Diolch am eich cwestiwn, y Cynghorydd Morris.

Fi yw aelod y Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdeithasol – mewn trefniant rhannu swydd.

Mae'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r rôl hon wedi'u nodi yn Atodiad 1 i Eitem 2 ar ein hagenda heddiw – Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 17 Mai 2022. Gall aelodau ddod o hyd i gyfrifoldebau Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol ar dudalen 38 y pecyn adroddiad.

Fy ngweledigaeth yw'r weledigaeth a rennir a nodir gan y weinyddiaeth Lafur yn ein hymrwymiadau maniffesto i bobl Casnewydd.

Bydd yr ymrwymiadau hyn yn sail i'r Cynllun Corfforaethol y bydd y cynlluniau Maes Gwasanaeth yn cael eu datblygu ohono.

Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr, Sally Ann Jenkins, Pennaeth Gwasanaethau Plant, Natalie Poyner, a Phennaeth Gwasanaethau Oedolion, Mary Ryan, yn ogystal ag uwch-swyddogion eraill. Ar ben hyn, mae'r holl aelodau etholedig wedi cael manylion y Tîm Gweithredol a Phenaethiaid Gwasanaeth fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Cwestiwn 5 – Aelod y Cabinet: Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Cynghorydd Mogford
Dywedwyd yr wythnos hon bod "MWY nag un o bob tri phlentyn yng Nghasnewydd yn byw mewn tlodi, yn ôl ffigurau newydd – sy'n golygu mai dyma ardal awdurdod lleol mwyaf tlawd Cymru." *South Wales Argus* 13/7/2022.

Pam, ym marn Aelod y Cabinet, y mae Casnewydd yn y newyddion eto am y rhesymau anghywir ac felly pa gamau y *mae'n* eu cymryd ar lefel y Cyngor i fynd i'r afael â'r sefyllfa enbyd hon yn uniongyrchol.

Ymateb:
Diolch, y Cynghorydd Mogford, am godi'r cwestiwn hwn.
Mae gennym boblogaeth gynyddol yng Nghasnewydd ac fel y mae data cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ei ddangos i ni, y rheswm dros y cynnydd hwnnw yw twf ein dinasyddion iau. Mae achosion tlodi plant, ac yn wir tlodi, ar draws pob grŵp oedran, yn amlffactoraidd. Mae amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys costau byw cynyddol, tâl isel, costau tai a budd-daliadau nawdd cymdeithasol annigonol yn allweddol i pam nad oes gan rai pobl ddigon o adnoddau ac felly'n byw mewn tlodi. Ar hyn o bryd, mae Credyd Cynhwysol yn annigonol i godi'r rhai sy'n gymwys i gael budd-daliadau mewn gwaith allan o dlodi. Yn yr un modd, nid yw'r system nawdd cymdeithasol ar gyfer y rhai sy'n dibynnu'n llwyr ar fudd-daliadau fel rhwyd ddiogelwch yn darparu digon o gymorth, yn enwedig i deuluoedd â mwy na dau o blant ac i bobl anabl. Mae costau byw cynyddol yn effeithio'n drymach ar y rhai sy'n dibynnu ar nawdd cymdeithasol ac unwaith eto yn cael effaith arbennig iawn ar blant a phobl anabl. Llywodraeth San Steffan sy'n gyfrifol am weinyddu a gweithredu'r system fudd-daliadau.

Ledled Casnewydd, mae gennym ystod eang o wasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae'r rhain yn amrywio o'n darpariaeth gyffredinol ar gyfer pob plentyn mewn

ysgol i ymyriadau arbenigol gan wasanaethau plant ar gyfer ein teuluoedd mwyaf agored i niwed. Mae ein gwasanaethau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Ieuenctid a Chwarae i gyd ar waith i ddiwallu anghenion ein cymunedau. Rydym yn gweithio gyda'n sefydliadau partner, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Heddlu Gwent a llu o sefydliadau trydydd sector, i ddarparu cymorth, cyngor, arweiniad ac ymyriadau uniongyrchol gyda theuluoedd. Fel rhan o ailstrwythuro diweddar ein tîm uwch-reolwyr, rydym wedi nodi'r angen i wella ein gwasanaethau Atal a Chynhwysiant ac felly dod â darpariaethau at ei gilydd i greu mwy o gydlyniant ac arferion a rennir er mwyn osgoi dyblygu. Mae rhai o'n gwasanaethau yn cefnogi teuluoedd yn benodol i sicrhau eu bod yn cael mynediad llawn at fudd-daliadau priodol.

Mae'r datblygiadau adfywio parhaus yng Nghasnewydd i'w croesawu'n fawr o ran creu cyflogaeth a gwella'r amgylchedd ehangach i'n holl ddinasyddion a bydd y rhain yn dod â mwy o gyfleoedd i'n holl ddinasyddion. Fodd bynnag, bydd rhai o'n poblogaeth iau yn parhau i fod yn ddibynnol ar nawdd cymdeithasol ac yn enwedig budd-daliadau mewn gwaith. Wrth i'r argyfwng costau byw barhau, mae'r effaith ar ein dinasyddion, ac yn enwedig ar blant, yn peri cryn bryder. Byddwn yn parhau i wneud popeth y gallwn i gefnogi teuluoedd i liniaru effaith yr argyfwng cenedlaethol hwn.

Ni ddylai plant fod yn byw mewn tlodi yn y 21ain ganrif ac mae llawer o ffactorau, yn anffodus, yn golygu bod rhai teuluoedd yn byw mewn tlodi.

Rydym yn cydnabod bod rhai teuluoedd yn ei chael yn anodd yn ariannol ac i rai mae hyn wedi dod yn anoddach fyth yn ystod y pandemig ac, yn fwy diweddar, wrth i gostau byw gynyddu.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd a'i bartneriaid yn cynnig ystod eang o gymorth i rieni a gofalwyr ledled y ddinas i fynd i'r afael â thlodi ac amddifadedd.

Mae hyn yn cynnwys cymorth gyda biliau, cymorth i ddod o hyd i waith neu i gael mynediad at hyfforddiant, darpariaeth gofal plant, a chymorth i fanciau bwyd.

Mae atal ac ymyrryd yn ddwy elfen allweddol o'n brwydr yn erbyn tlodi ac mae rhai prosiectau amhrisiadwy ar waith yn y ddinas hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Dechrau'n Deg: wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, mae hwn yn darparu gofal plant am ddim, cylchoedd chwarae, clybiau cyn ac ar ôl yr ysgol mewn rhannau o Gasnewydd, a chymorth gyda chostau gofal plant. Mae hyn yn helpu i gefnogi llesiant plant yn ogystal â lleddfu'r pwysau ar rieni a gofalwyr.

- Teuluoedd yn Gyntaf: rhaglen arall a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n cefnogi teuluoedd, plant a phobl ifanc hyd at 25 oed gyda'r prif nod o leihau effaith tlodi a chefnogi llesiant emosiynol, trwy asiantaethau'n cydweithio a chanolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar.

- Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn darparu cyngor a gwybodaeth am wasanaethau i rieni ac, ynghyd â'r gwasanaeth gofal plant, yn gweithio gyda darparwyr, a all fod yn wasanaeth hanfodol i rieni a gofalwyr sy'n gweithio. Mae grantiau hefyd ar gael i ddarparwyr gofal plant.

- Mae ein tîm datblygu chwarae yn gweithio gyda theuluoedd trwy chwarae a meithrin gwydnwch a chydberthnasau cadarnhaol. Mae'r manteision yn cynnwys gwella llesiant emosiynol, cymdeithasol a chorfforol oedolion a phlant.

- Mae Bwyd a Hwyl yn gweithio gyda phlant mewn pum safle i hyrwyddo prydau iach a chyflwyno gweithgareddau corfforol.

- Mae Rhaglen Trawsnewid Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar yn gweithredu ym Metws ac mae'n brosiect amlasiantaeth sy'n sicrhau bod teuluoedd â phlant o enedigaeth hyd at saith oed yn cael y cymorth cywir.

Mae'r Cyngor hefyd yn darparu cymorth ariannol i deuluoedd yn uniongyrchol a thrwy sefydliadau eraill.

Er enghraifft, mae grant cyfalaf newydd wedi'i sefydlu rhwng y Cyngor a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent i gefnogi grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector sy'n ymateb i ansicrwydd bwyd yng Nghasnewydd.

Mae'r cyllid yn cynnwys mentrau bwyd cymunedol, prosiectau tyfu a chydweithrediadau sy'n wynebu heriau o ran diwallu angen oherwydd offer, adeiladau neu ffactorau eraill annigonol.

Mae cynnig i ddarparu cyllid ychwanegol i sefydliadau bwyd cymunedol hefyd yn cael ei ystyried yn yr wythnosau nesaf.

Mae cymorth ymarferol ar gael drwy ein hybiau ardal. Mae timau fel ein cysylltwyr cymunedol yn gweithio gydag unigolion, grwpiau a sefydliadau ar draws ardal Casnewydd i ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth.

Gall pobl hefyd wneud cais am ostyngiadau yn y dreth gyngor, taliadau tai yn ôl disgresiwn, a chymorth brys ar gyfer costau hanfodol.

Atodol:

Gofynnodd y Cynghorydd Mogford p'un a oedd Aelod y Cabinet yn beio'r llywodraeth ganolog am wneud Casnewydd yr ardal fwyaf tlawd yng Nghymru.

Ymateb:

Gwnaeth y Cynghorydd Hughes ei deimladau ar y pwnc yn glir, ac, yn ei ymateb, awgrymodd fod y Cynghorydd Mogford yn cyfeirio at hyn.

Cwestiwn 6 – Aelod y Cabinet: Trawsnewid Sefydliadol

Y Cynghorydd Morris:
A allech esbonio eich rôl a'ch cyfrifoldeb mewn Saesneg clir, gan gynnwys eich gweledigaeth bersonol ar gyfer y rôl ac enwau'r uwch-swyddogion sy'n adrodd i chi?

Ymateb:
Diolch i chi, y Cynghorydd Morris, am y cwestiwn.

Fi yw Aelod y Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol.

Mae fy nghyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r rôl hon wedi'u nodi yn Atodiad 1 i Eitem 2 ar ein hagenda heddiw – Cofnodion 17 Mai 2022. Gall aelodau ddod o hyd i hwn yn y pecyn adroddiad.

Fy ngweledigaeth yw'r weledigaeth a rennir a nodir gan y weinyddiaeth Lafur yn ein hymrwymiadau maniffesto i bobl Casnewydd. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn sail i'r Cynllun Corfforaethol y bydd y cynlluniau Maes Gwasanaeth yn cael eu datblygu ohono.

Rwy'n gweithio'n agos gyda Phennaeth y Gyfraith a Safonau a Phennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid ac uwch-swyddogion eraill. Mae'r holl aelodau etholedig wedi cael manylion y Tîm Gweithredol a Phenaethiaid Gwasanaeth fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Cwestiwn 7 – Aelod y Cabinet: Y Newid yn yr Hinsawdd a Bioamrywiaeth

Y Cynghorydd Morris:
A allech esbonio eich rôl a'ch cyfrifoldeb mewn Saesneg clir, gan gynnwys eich gweledigaeth bersonol ar gyfer y rôl ac enwau'r uwch-swyddogion sy'n adrodd i chi?

Ymateb:
Diolch am eich cwestiwn.

Fi yw Aelod y Cabinet dros y Newid yn yr Hinsawdd a Bioamrywiaeth.

Mae'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r rôl hon wedi'u nodi yn Atodiad 1 i Eitem 2 ar ein hagenda heddiw – Cofnodion 17 Mai 2022. Gall aelodau ddod o hyd i hwn ar dudalen 33 y pecyn adroddiad.

Fy ngweledigaeth yw'r weledigaeth a rennir a nodir gan y weinyddiaeth Lafur yn ein hymrwymiadau maniffesto i bobl Casnewydd. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn sail i'r Cynllun Corfforaethol y bydd y cynlluniau Maes Gwasanaeth yn cael eu datblygu ohono. Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Strategol dros yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Paul Jones a Phennaeth Gwasanaeth yr Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd, Silvia Gonzalez Lopez.

Mae'r holl aelodau etholedig wedi cael manylion y Tîm Gweithredol a Phenaethiaid Gwasanaeth fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Cwestiwn 8 – Aelod y Cabinet: Seilwaith ac Asedau

Y Cynghorydd Morris:
A allech esbonio eich rôl a'ch cyfrifoldeb mewn Saesneg clir, gan gynnwys eich gweledigaeth bersonol ar gyfer y rôl ac enwau'r uwch-swyddogion sy'n adrodd i chi?

Ymateb:
Fi yw Aelod y Cabinet dros Seilwaith ac Asedau.

Mae'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â'r rôl hon wedi'u nodi yn Atodiad 1 i Eitem 2 ar ein hagenda heddiw – Cofnodion 17 Mai 2022. Gall aelodau ddod o hyd i hwn ar dudalen 33 y pecyn adroddiad.

Fy ngweledigaeth yw'r weledigaeth a rennir a nodir gan y weinyddiaeth Lafur yn ein hymrwymiadau maniffesto i bobl Casnewydd. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn sail i'r Cynllun Corfforaethol y bydd y cynlluniau Maes Gwasanaeth yn cael eu datblygu ohono.

Rwy'n gweithio'n agos gyda'r Cyfarwyddwr Strategol, Paul Jones, Pennaeth Gwasanaethau Dinas, Stephen Jarrett, y Pennaeth Pobl, Polisi a Thrawsnewid, Tracy McKim, ac uwch-swyddogion eraill. Mae'r holl aelodau etholedig wedi cael manylion y Tîm Gweithredol a Phenaethiaid Gwasanaeth fel rhan o'u cyfnod sefydlu.

Cwestiwn 9 – Aelod y Cabinet: Seilwaith ac Asedau

Y Cynghorydd Mogford:
A allai Aelod y Cabinet roi ei weledigaeth ar gyfer dyfodol trafnidiaeth gyhoeddus o fewn y ddinas, ac wrth wneud hynny, mynegi barn ynghylch p'un a yw ein rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus fel y mae ar hyn o bryd yn addas i'r diben?

Ymateb:
Mae Llwybr Newydd – Strategaeth Drafnidiaeth Llywodraeth Cymru, yn nodi'r defnydd o deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus fel dewisiadau sy'n cael eu ffafrio o gymharu â cheir preifat ac rwy'n rhannu'r dyheadau hyn.

Mae'r newidiadau patrwm teithio drwy'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar y defnydd o fysiau, ac nid yw hyn yn unigryw i Gasnewydd, ac effeithiwyd ar hyfywedd gwasanaethau.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru drwy gydol y pandemig ac rwy'n falch bod gwasanaethau wedi cael eu cefnogi, ac yn parhau i gael eu cefnogi, gan gyllid brys. Bydd y cymorth hwn yn ein galluogi i ddeall y newidiadau mewn nawdd yn well wrth i ni symud ymlaen.

Mae'r diwydiant yn wynebu ei heriau ei hun, gan gynnwys y cyflenwad o yrwyr.

Byddwn yn cefnogi'r mentrau diweddar a pharhaus yng Nghasnewydd, fel y treial prisiau rhad ac am ddim a'r cynllun Fflecsi, sy'n caniatáu i ni ddarparu gwasanaethau i benderfynu sut y gall mentrau a gwasanaethau gwahanol fod o fudd i'n cymunedau.

Byddwn hefyd yn nodi bod ein gweithredwr trefol yn arloesol yn ei ddull gweithredu, ac erbyn hyn mae'n rhedeg nifer o fysiau trydan gyda'r gostyngiadau carbon sy'n gysylltiedig â hynny.

Rwy'n awyddus i barhau i weithio gyda Chomisiwn Burns ar gyfer unrhyw fanteision i drafnidiaeth gyhoeddus y gellir eu gwneud yn y ddinas a sylwch fod hyn yn cynnwys gwelliannau i'n harlwy rheilffyrdd.

Efallai y byddwch hefyd yn ymwybodol ein bod wedi ymateb yn ddiweddar i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ddyfodol y diwydiant, gan newid o ddiwydiant masnachol yn bennaf fel y mae ar hyn o bryd i system fasnachfraint, gan ofyn am ragor o fanylion am y cynigion i sicrhau bod ein cymunedau'n cael system trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol yn y dyfodol.

Atodol:

Er eglurhad, gofynnodd y Cynghorydd Mogford p'un a oedd gan y Cynghorydd Lacey fwy o gynlluniau di-dâl ar waith i hepgor costau i bobl.

Y Cynghorydd Lacey:

Byddai'r Cynghorydd Lacey yn darparu ateb ysgrifenedig.

Cwestiwn 10 – Aelod y Cabinet: Seilwaith ac Asedau

Y Cynghorydd Mogford:
Gyda chyhoeddiad y bydd y 'ddeddfwriaeth 20mya' newydd yn dod i rym yn ail hanner 2023 ac o ystyried y canlynol: 'Ni fydd y ddeddfwriaeth newydd yn gosod terfyn cyflymder cyffredinol ar bob ffordd, yn hytrach bydd yn gwneud y terfyn cyflymder diofyn yn 20mya, gan adael awdurdodau lleol i ymgysylltu â'r gymuned leol i benderfynu pa ffyrdd ddylai aros ar gyflymder o 30mya.'

A all Aelod y Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw broses ar gyfer ymgysylltu â'r 'gymuned leol'? A fydd y newidiadau hyn yn cael eu hariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru? Os na, beth fydd y goblygiadau ariannol i gyllideb y Cyngor.

Ymateb:
Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ei menter i newid y terfyn cyflymder diofyn o 30mya mewn ardaloedd preswyl i 20mya.

Trwy Lywodraeth Cymru, mae ymgynghorwyr arbenigol wedi mapio terfynau cyflymder 30mya presennol ledled Cymru ac wedi darparu mapiau i bob awdurdod lleol, gan gynnwys Casnewydd, yn dangos yr ardaloedd lle maent yn teimlo bod y meini prawf a osodwyd i sicrhau cysondeb ledled Cymru yn berthnasol.

Mae Casnewydd wedi cwblhau ei holl asesiadau rhwydwaith ac wedi cyflwyno'r data i Lywodraeth Cymru i'w hystyried a'u cynnwys ar ei MapDataCymru, a fydd yn dangos yr eithriadau 20mya a 30mya ar gyfer y ddinas. Rhagwelir y bydd y data hyn ar gael i'r cyhoedd ym mis Medi 2022.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar strategaeth gyfathrebu ar hyn o bryd, ac rydym yn gweithio ochr yn ochr â'r strategaeth honno i geisio sicrhau bod ein cymunedau'n cael gwybod am y fenter.

Fel menter gan Lywodraeth Cymru, mae wedi ymrwymo i ariannu'r gwaith o weithredu'r terfyn cyflymder rhagosodedig o 20mya ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod ledled Cymru ac felly dylai fod goblygiadau ariannol i Gyngor y Ddinas wrth weithredu'r ddeddfwriaeth newydd hon.

Atodol:

Er eglurhad, gofynnodd y Cynghorydd Mogford, o ran proses leol, ar ôl y terfyn cyflymder 20 mya, oni fyddai ymgynghoriad â thrigolion.

Ymateb:

Dywedodd y Cynghorydd Lacey y byddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei ddarparu.

Nid oedd unrhyw gwestiynau i gadeiryddion pwyllgorau. Felly, diolchodd yr aelod llywyddol i'r aelodau am fod yn bresennol a daeth â'r cyfarfod i ben.

The meeting terminated at Time Not Specified